No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, R. Sivagnanam, E. Williams ac M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr E. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson a N.C. Thomas.

### C248 CYHOEDDIAD –

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr ddiffodd eu meicroffonau pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad, a allai roi ei law i fyny (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth codi llaw.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrs' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrs' i dynnu sylw at unrhyw fater technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### C249 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr B.E. Brooks a M.R. Wilkinson.

### C250 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

### C251 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C252 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL 2022 I 31AIN IONAWR 2023 (AG/PA) (CRAFFU – Y GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a’i ddiben oedd hysbysu’r Cabinet o’r cynnydd mewn perthynas â gwariant refeniw ar gyfer cyfnod 1 Ebrill i 31 Ionawr 2023.

Dywedodd yr Arweinydd bod yr adroddiad eisoes wedi’i drafod yn y Pwyllgor Craffu lle bu trafodaethau diddorol, yn enwedig pwysau ar y gyllideb ar gyfer ymdrin â thyllau yn y ffyrdd oherwydd tywydd garw hyd yma eleni a oedd wedi achosi gorwariant yn y gyllideb honno. Roedd wedi cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfodydd cyllideb ac yn y Cyngor Llawn. Parhaodd y Cyngor i roi tua £1 miliwn y flwyddyn i gynnal a chadw tyllau yn y ffordd ond yn hanesyddol roedd wedi rhoi mwy i mewn oherwydd grantiau a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Opsiwn a drafodwyd yn y Pwyllgor Craffu oedd cynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth Gyngor a fyddai wedi dod ag £850,000 i mewn y gellid bod wedi’i ddyrannu wedyn yn erbyn y gyllideb honno, ond ni fu unrhyw awydd i fwrw ymlaen â hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod cyhoeddiad cyllidebol wedi bod ddoe, ond nid oedd yn hysbys eto beth fyddai hynny’n ei olygu i Gymru o ran arian ychwanegol. Anogodd drigolion Bro Morgannwg i barhau i roi gwybod am broblemau gyda thyllau yn y ffordd drwy Cyswllt 1 y Fro neu drwy ddefnyddio’r wefan, er mwyn blaenoriaethu’r achosion mwyaf brys ac osgoi bod unrhyw faterion yn gwaethygu o ganlyniad i’r tywydd gwael diweddar.

Roedd hwn yn fater i’r Pwygllor Gwaith ei benerfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y safbwynt o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod yn cael ei nodi.

(2) BOD y trefniadau ar gyfer gwrthbwyso’r gorwariant a ragwelir yn 2022/23 fel y’u nodir yn yr adroddiad yn cael eu nodi.

(3) BOD Cyllideb Refeniw ddiwygiedig 2022/23 o £290.574 miliwn sy’n adlewyrchu cynnydd o £1.5 miliwn ar gyfer y Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig i’w hariannu o incwm ychwanegol y Dreth Gyngor yn cael ei chymeradwyo.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Ystyried yr alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23.

(2) Ymateb i bwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy’n dod i’r amlwg yn 2022/23.

(3) Sicrhau bod cyfraniad yn cael ei wneud at gost ychwanegol dyfarniad cyflog 2022/23 mewn ysgolion.

**C253 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL 2022 I 31AIN IONAWR 2023 (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd yn y gwaith ar Raglen Gyfalaf 2022/23 am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Ionawr 2023 ac i ofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Dywedodd yr Arweinydd fod llithriant yn bur aml yr adeg hon o'r flwyddyn wrth i ddiwedd y flwyddyn ariannol agosáu, yn enwedig ar gyfer materion megis prosiectau addysg a oedd yn gorfod digwydd dros wyliau ysgol, megis y Pasg, ac a allai fynd â'r prosiect i'r flwyddyn ariannol newydd o ganlyniad.

Roedd adran newydd yn yr adroddiad o dan baragraff 2.5 o'r enw 'Diweddariad ar Gynnydd y Rhaglen Gyfalaf' a oedd yn manylu bod y rhan fwyaf o'r cyfarwyddiaethau naill ai wedi cwblhau neu ar darged i gwblhau dros 80% o'r cynlluniau presennol ar y Rhaglen Gyfalaf. Roedd cynlluniau eraill wedi gwneud gwaith cychwynnol ac yn mynd rhagddynt ond nid oeddent wedi'u cwblhau eto yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at baragraff 2.8 o'r adroddiad ynghylch y Grant Seilwaith Arosfannau Bysiau a dywedodd ei fod yn falch o weld gweithredu ar y gosodiadau hynny er budd y rheini yn Nwyrain a Gorllewin y Fro. Roedd hefyd yn falch o weld Gofod Gwneud Llyfrgell y Barri a'r rhaglen Adnewyddu Cyfleusterau Cyhoeddus yn mynd rhagddynt.

Adleisiodd y Cynghorydd Birch sylwadau am Ofod Gwneud Llyfrgell y Barri gan fod rhaglen debyg ym Mhenarth wedi bod ar gael i bobl ifanc ac oedolion y tu hwnt i oedran ysgol a oedd am barhau â hobïau a fyddai wedi bod yn ddrud i'w cynnal yn eu cartrefi eu hunain. Roedd y cynllun yn cynnig man i bobl i fynegi eu doniau a galluoedd creadigol.

Dywedodd y Cynghorydd John y byddai'r dechnoleg safle bws newydd yn amhrisiadwy i ddefnyddwyr gwasanaethau bysiau i'w galluogi i weld yn union pryd yr oedd bws i fod i ddod.

Roedd hwn yn fater i'r Pwygllor Gwaith ei benerfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn cael ei nodi.

(2) BOD y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

(3) BOD y defnydd o Bwerau Argyfwng fel y manylir yn yr Atodiad atodedig yn cael ei nodi.

(4) BOD y newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2022/23 a’r blynyddoedd i ddod yn cael eu cymeradwyo:

- Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant – Lleihau’r cynllun hwn i £123,000 yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Ysgol Gynradd Gwenfô – Atgyweirio/adnewyddu goleuadau brys a gwresogi – Cario £16,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 a’i drosglwyddo i’r gyllideb wrth gefn ar gyfer adnewyddu asedau addysg.
- Ysgol Gynradd Albert – Adnewyddu ffenestri cam 2 – Cario £10,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 a’i gyfuno â chynllun Ysgol Gynradd Albert – gosod ffenestri newydd/pydredd gwlyb.
- Ysgol Gynradd High Street – Amnewid to fflat – Cario £20,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ysgol Gynradd Holton – Adnewyddu ffenestri cam 2 – Cario £30,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ysgol Gynradd Parc Jenner – Adnewyddu drysau allanol a ffenestri cam 1 – Cario £25,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ysgol Sant Curig – Adnewyddu nwyddau dŵr glaw – Cario £25,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cydymffurfio â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – Cario £35,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Diogelu rhag tân – Cario £25,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ysgol Gynradd Albert – Ffenestri newydd/pydredd gwlyb – Cario £20,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 a’i gyfuno â chynllun cam 2 adnewyddu ffenestri Ysgol Gynradd Albert.
- Atgyweiriadau allanol sylfaenol Ysgol Gynradd Albert – Cario £20,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ysgol Gynradd Holton - Atgyweiriadau draenio - Cario £50,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cam 2 atgyweiriadau allanol Cartref Porthceri – Cario £12,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Rhaglen Gwella Tai – Gwneud newidiadau i gyllideb 2022/23 a 2023/24 fel y manylir ym mharagraff 2.29 o’r adroddiad.
- Adolygu newidiadau i gynlluniau trwyddedau parcio – Cario £10,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 a’i gyfuno â’r Cynllun Parcio Preswyl a’i ailenwi yn Gynlluniau a Thrwyddedau Parcio Preswyl.
- Adnewyddu cyfleusterau cyhoeddus – Cario £115,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Gwelliannau priffyrdd gwasanaethau cymdogaeth – Cario £350,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Pylu goleuadau stryd/gosod llusernau LED – Cario £275,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adnewyddu meysydd parcio – Cario £68,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adnewyddu cysgodfa ddwyreiniol a phromenâd Ynys y Barri ac adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig – Cario £1 miliwn ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.

- Teithio Llesol y Rhws a chynllun A106 – Cyfuno'r cynllun hwn gyda chynllun Trafnidiaeth Gynaliadwy'r Rhws a chadw'r enw Teithio Llesol y Rhws a chynllun A106.
- Rhaglen Adnewyddu Cerbydau – Cario £215,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Trafnidiaeth Leol – Gwelliannau safleoedd bysiau – Trosglwyddo £5,000 o'r cynllun hwn i'r cynllun cronfa Seilwaith Bysiau.
- Cynllun Parcio Preswyl – Cario £11,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 a'i gyfuno â'r cynllun Trwyddedau Parcio a'i ailenwi Cynlluniau a Thrwyddedau Parcio Preswyl.
- Wal Gynnal Trebefered – Cario £110,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Sain Tathan – Offer ffitrwydd awyr agored – Cario £35,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Hyb Cymunedol Grange – Cario £60,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Man chwarae amlddefnydd Cwrt y Vil – Cario £90,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan ailgylchu gwastraff y cartref newydd (CAGC) – Cario £500,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Toiledau parciau gwledig – Cario £100,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Hysbysfyrddau toiledau – Ynys y Barri – Cario £15,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Marchnad da byw y Bont-faen – Cario £22,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Gwasanaethau Busnes 2 – Cario £46,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Prosiect Dynodi Llwybr y Barri – Cario £77,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Lôn Pum Milltir – Cario £705,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Creu Cymunedau Cryf – Cario £9,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 ar gyfer cynllun Clwb Tenis y Bont-faen.
- Adnewyddu toiledau depo'r Alpau – Cario £194,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 ac ailenwi'r cynllun, adnewyddu toiledau a chyfleusterau lles yr Alpau.
- Uwchraddio awyru a goleuo i Contact One Vale – Cario £247,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Neuadd y Dref Y Barri – Atgyweirio gwaith plwm to a llusernau – Dileu'r cynllun hwn a lleihau Rhaglen Gyfalaf 2022/23 £40,000.
- To Caffi'r Promenâd Canolog, Ynys y Barri – Cario £48k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Depo Court Road – Cyllideb Arolygu, Dichonoldeb a Seilwaith – Cario £80,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- System archif TGCh Oracle – Cario £75,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Dyraniad TGCh – Dileu cyllideb y cynllun hwn o £196,000 o Raglen Gyfalaf 2022/23.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Caniatáu i gynlluniau fynd rhagddynt yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol.

**C254 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet am y Prif Weithredwr yn defnyddio Pwerau Argyfwng ers yr adroddiad diwethaf ar 19 Ionawr 2023.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benerfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

I hysbysu'r Cabinet.

**C255 GWAREDU LLAIN FACH O DIR YM MHERCHNOGAETH TAI YN BLACK ROCK HOUSE, CAMMS CORNER (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gael gwared ar ddarn bach o dir anweithredol ar gyfer tai, a oedd yn addas i'w ddefnyddio'n atodol i fwynhad y tŷ annedd cyfagos yn unig (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad).

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benerfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y llain o dir ar gyfer tai a ddangosir yn Atodiad A yn cael ei ddatgan yn ddiangen i'r Cyngor.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu i waredu'r tir a ddangosir ar y cynllun yn Atodiad A o dan 32-34 o Ddeddf Tai 1985 yn amodol ar gydymffurfedd â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, unrhyw gydsyniadau statudol gofynnol a phenderfyniadau (3)-(5) isod.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu a Phennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 / Rheolwr Gweithredol

Gwasanaethau Ariannol, i benodi prisiwr allanol i ddarparu adroddiad prisiad marchnad y tir a chytuno ar delerau ac amodau priodol ar gyfer gwaredu'r llain o dir.

(4) BOD y ffaith bod y Cyngor wedi dibynnu ar Ganiatâd E y Caniatadau Cyffredinol ar gyfer Gwaredu Tai a Thir 1994 a wnaed o dan Ddeddf Tai 1985 i'w waredu er mwyn cydymffurfio â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw gydsyniad statudol gofynnol yn cael ei nodi.

(5) BOD y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i ffurfioli unrhyw warediad yn amodol ar benderfyniadau (1)-(4) uchod.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor

(2) Sicrhau cydymffurfiad â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, unrhyw gydsyniad statudol y mae ei angen a'r argymhellion uchod.

(3) Caniatáu i'r tir gael ei werthu ar delerau ac amodau addas.

(4) Sicrhau cydymffurfiad â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw gydsyniadau statudol y mae eu hangen.

(5) Ffurfioli gwerthiant y tir yn gyfreithiol a sicrhau cydymffurfiad â'r statud ac yn amodol ar y penderfyniadau uchod.

**C256 DYFARNU CONTRACT CANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF 2023-26 (DSCCT) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet am y broses dendro ar gyfer rheoli'r canolfannau ailgylchu gwastraff cartref rhwng 2023 a 2026.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet y byddai manylion llawn y mater yn cael eu trafod o dan adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

Roedd hwn yn fater i'r Pwygllor Gwaith ei benerfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD – BOD manylion y broses dendro gyda'r bwriad o wneud penderfyniad ar ddyfarnu'r contract drwy adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Rhoi gwybod am y sefyllfa bresennol gyda'r contract penodol hwn.

**C257 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI'I BENDERFYNU YN FRYS –**

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

**C258 PANEL YMGYNGHOROL LLYWODRAETHWYR AWDURDODAU LLEOL –**
**(Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr angen penodi Llywodraethwyr i Gyrff Llywodraethol cyn gwyliau'r Pasg er mwyn gallu llenwi swyddi gwag ar ddechrau Tymor yr Haf)**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Ymgynghorol Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2023 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd Birch fod y Cabinet yn ddiolchgar i'r cannoedd o bobl ar draws Bro Morgannwg a roddodd o'u hamser a gwirfoddoli eu sgiliau a'u harbenigedd i helpu ysgolion, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd presennol.

Wedi ystyried y cofnodion, penderfynwyd wedi hynny:

BOD y penodiadau a'r gohiriadau canlynol ar gyfer yr ysgolion isod yn cael eu cymeradwyo:

| Ysgol | Nifer y Lleoedd Gwag | Apwyntiad |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Cogan | 1 | P. Hall |
| Ysgol Gynradd Colcot | 1 | Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards |
| Ysgol Gyfun y Bont-faen | 1 | J. Smith |
| Ysgol Gynradd Dinas Powys | 2 | G. Davies, M. McDonald |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô | 1 | S. Leach |
| Ysgol Gynradd Holton | 1 | M. McDonald |
| Ysgol Gynradd Llangan | 1 | K. Tinsley |
| Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru | 1 | C. Barber |
| Ysgol Llanilltud Fawr | 1 | K. Tinsley |
| Ysgol Gynradd Romilly | 1 | L. Sokolski |
| Ysgol Gynradd South Point | 1 | Y Cynghorydd S. Campbell |
| Ysgol Gynradd St Andrew yr Eglwys yng Nghymru | 1 | P. Bugler |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen | 1 | Gan nad oedd unrhyw ymgeiswyr, cytunwyd i ohirio’r swydd wag tan dymor yr hydref |
| Ysgol Gynradd Sant Illtyd | 1 | G. Powell |
| Ysgol Gatholig Joseff Sant | 1 | Gan nad oedd unrhyw ymgeiswyr, cytunwyd i ohirio’r swydd wag tan dymor yr hydref |
| Ysgol Gynradd Sili | 1 | C. Hooper |
| Ysgol Gynradd Victoria | 2 | A. Davey a P. Hall |
| Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru | 1 | Gan nad oedd unrhyw ymgeiswyr, cytunwyd i ohirio’r swydd wag tan dymor yr hydref |
| Ysgol Gynradd Y Bont Faen | 1 | D. Breen |
| Ysgol Iolo Morgannwg | 2 | Gan nad oedd unrhyw ymgeiswyr, cytunwyd i ohirio’r swydd wag tan dymor yr hydref |
| Ysgol Pen y Garth | 2 | L. James ac R. Parsons |

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried a chytuno ar benodiadau a gohirio i gyrff llywodraethu’r ysgolion uchod, gan ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd (gan gynnwys y ceisiadau hwyr) ac er mwyn gallu hysbysebu swyddi gwag fel y bo’n briodol.

**C259 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C260 DYFARNU CONTRACT CANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF 2023-26 (DSCCT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 14 A 12A) (SGRIWTINI – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a’i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn y tendr mwyaf manteisiol a gweithredu’r contract ar gyfer rheoli canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref 2023-26.

Roedd hwn yn fater i’r Pwyllgor Gwaith ei benerfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD dyfarniad y contract ar gyfer rheoli a gweithredu canolfannau cilgylchu cwastraff y cartref yn y Barri a Llandŵ, a rheoli'r siop ailddefnyddio yn y Barri, i FCC Environmental am gyfnod o dair blynedd yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, i drafod a chytuno ar ffi reoli ar gyfer gweithredu a rheoli'r siop ailddefnyddio ar y safle yn y Barri.

(3) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau (1) a (2) yn cael ei ddefnyddio.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor, sy'n gofyn am gontractau gwerth mwy na £300,000 i'w cytuno gan y Cabinet.

(2) Er mwyn cael y pris gorau ar gyfer gweithredu a rheoli'r ganolfan ailddefnyddio ar y safle yn y Barri.

(3) Galluogi dogfennau'r contract i gael eu cwblhau gyda'r contractwr llwyddiannus erbyn 31 Mawrth, 2023 i osgoi toriad yn y trefniadau rheoli ar gyfer y cyfleusterau pwysig hyn.